## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **20 Chwefror 2024**

**Teitl:** **Adroddiad am Gyllideb ddrafft 24/25**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Rhoi adborth ar y Gyllideb ddrafft fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 23/01/24**

**Cefndir:**
Gofynnwyd i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried adroddiad Cyllideb ddrafft 24/25 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23/01/24 a'r effaith gysylltiedig ar y Gwasanaethau priodol o fewn ei gylch gwaith.

Gwnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu gyfarfod ar Chwefror yr 8fed 2024 am 1:30pm.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024/2025 (Atodiad A). Dywedodd yr Arweinydd fod hon yn sefyllfa ariannol eithriadol o anodd sy'n wynebu'r Cyngor gyda phwysau ariannol sylweddol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael, y Cynghorydd Gareth Davies, y wybodaeth sy'n weddill yn Atodiad A yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Davies hefyd mai dyma'r sefyllfa ariannol waethaf y mae wedi ei hwynebu o bell ffordd fel Cynghorydd wrth bennu'r gyllideb.

Yna rhoddodd Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael, ddiweddariad llafar byr o ran sefyllfa ddiweddaraf y Gyllideb.

Yna rhoddodd Aelodau'r Cabinet yn eu tro wybodaeth fanwl ynghylch Atodiadau B ac C a'r cynigion penodol o ran arbedion a ddangosir yn Atodiad D, fel a ganlyn:

D1 – Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
**Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:**
- Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau;
- Y Cynghorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid

**Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25:** £1.539m o Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion
£696k o'r gyllideb sy'n cael ei chadw ar gyfer y Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
**Y gyllideb bresennol:** £56.8m (gan gynnwys £47.5m a ddirprwyir i ysgolion)

Yna ystyriodd yr Aelodau Atodiad E, Ffioedd a Chostau yn ymwneud â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu, tudalennau 15-16 papurau'r agenda.

Yna ystyriodd yr aelodau Atodiad F ac Atodiad G.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol.

**Argymhellion:**

O ran y gwasanaethau sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, gofynnir i'r Aelodau:

1. Ystyried y canlynol:
   a) sefyllfa gyffredinol cyllideb ddrafft 24/25.
   b) yr elfennau perthnasol o ran y symudiadau yn y Gyllideb Refeniw.
   c) yr elfennau perthnasol yng nghyswllt y pwysau o ran costau yn y Gyllideb Refeniw.
   d) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch gwneud arbedion yn y Gyllideb Refeniw.
   e) yr elfennau perthnasol o ran y cynigion ynghylch Ffioedd a Chostau.
   f) cynnig y Cabinet ynghylch Premiymau Treth y Cyngor.
   g) yr elfennau perthnasol o ran y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.
2. Gwneud unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor yn credu sy'n briodol yng nghyswllt y Gyllideb, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried ar 20/02/24.

**Rheswm dros yr argymhellion:**

Er mwyn cynorthwyo â pharatoi cyllideb gytbwys, sicrhau bod y gyllideb gyffredinol sy'n cael ei chynnig yn cael ei chraffu'n briodol a gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol, i'r Cabinet eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 20/02/24.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried yr argymhellion uchod ac wedi cytuno y byddai cynigion a nodwyd yn y dyfodol o ran arbedion ar gyfer 2025/26 ymlaen yn cael eu rhoi ar y flaenraglen graffu pan fo'n briodol.

**Y Cynghorydd Endaf Edwards**
***Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu***